Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol O.M. Edwards

**Llanuwchllyn**
**Bala**
**Gwynedd**
**LL23 7UB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol O.M. Edwards

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol O.M. Edwards |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 68 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 9 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | * |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 6.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 89.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2022 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/10/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn meithrin y disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu a'u chwarae. Mae staff yn cefnogi lles a dysgu y disgyblion yn effeithiol.

Mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y rhan fwyaf o weithgareddau yn ennyn diddordeb y disgyblion, gan gynnig adborth a chymorth defnyddiol iddynt. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith yn ddigon effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblon yn datblygu'n effeithiol. Er hyn, nid yw eu medrau Saesneg yn datblygu i'r un safon. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae medrau rhif, creadigol a digidol y rhan fwyaf yn datblygu'n gadarn.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni. O ganlyniad, mae rhieni'n hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant.

Mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion gyda chysylltiadau cymunedol gwerthfawr yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yn chwarae rhan greiddiol wrth gymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol, cystadlu yn yr eisteddfod leol a chasglu sbwriel i harddu'r ardal leol. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd yn cyfrannu at ddatblygu'r disgyblion i fod yn ddinasyddion cydwybodol sy'n ymfalchïo yn eu cymuned a'u hamgylchfyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Datblygu medrau Saesneg disgyblion

A2 Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol sy'n rhan greiddiol o'i chymuned leol. Darperir amgylchedd dysgu ysgogol gan staff sy'n hyrwyddo lles a phrofiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddynt berthynas waith dda â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch gartrefol yn yr ysgol. Nodwedd gref o'r ysgol yw'r modd mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi lles y disgyblion ieuengaf yn gwbl naturiol wrth ddysgu a chwarae. Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas dda â'r rhieni. O ganlyniad, mae'r rhieni'n ymddiried yn y staff i ymateb yn gadarnhaol i unrhyw fater a all effeithio ar les neu addysg eu plant.

Ar draws yr ardaloedd dysgu, mae staff yn rhoi pwyslais cyson ar feithrin angerdd disgyblion at yr iaith Gymraeg. Maent yn cyfathrebu â'r disgyblion mewn iaith raenus sy'n eu cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol. Yn ogystal, mae disgyblion yn elwa o brofiadau gwerthfawr tra'n cydweithio â beirdd a chantorion adnabyddus a chystadlu yn gyson yn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol yr Urdd. O ganlyniad, mae brwdfrydedd disgyblion a'u balchder i siarad Cymraeg yn gryfder nodedig.

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae'n arddel ei weledigaeth yn glir i ddatblygu disgyblion sy'n hapus, yn gwrtais sy'n gwneud eu gorau glas', ac y mae'n ei chyfleu'n llwyddiannus i holl gymuned yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion, ac o ganlyniad, mae ethos cefnogol, gweithgar a Chymreig yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod lles y staff yn ganolog i'w gwaith dyddiol, ac yn sicrhau bod ystyriaeth gref yn cael ei rhoi i'w cyfrifoldebau. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd a phrydlondeb da ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol a chyfathrebu'n fwriadus â rhieni. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol mewn gwasanaethau, sy'n cynnwys gwahodd ymwelwyr i'r ysgol a thrwy drefnu ymweliadau addysgol gwerthfawr. Mae disgyblion yn dysgu am grefyddau eraill ac am faterion byd-eang sy'n digwydd mewn diwylliannau gwahanol.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir i ddarparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chyfoes i ddisgyblion sydd wedi ei wreiddio'n gelfydd yn y gweithgareddau dysgu. Mae'r profiadau dysgu yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes, diwylliant a threftadaeth hynod gyfoethog yr ardal yn fedrus. Mae'r ysgol yn rhannu arferion effeithiol gydag ysgolion lleol yn achlysurol, sy'n darparu cyfleoedd pwrpasol i staff ddysgu a rhannu eu profiadau â gweithwyr proffesiynol eraill. Er enghraifft, mae staff o ysgolion eraill yn ymweld â'r ysgol i arsylwi arfer dda ynglŷn â'r modd mae athrawon yn cyfoethogi'r ddarpariaeth wrth barhau i wreiddio'r cwricwlwm.

Mae staff yn cynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn bwrpasol. Maent yn gosod disgwyliadau uchel ac yn cymell disgyblion i ddatblygu eu medrau yn adeiladol a chynyddol. Yn gyffredinol, mae'r gweithgareddau dysgu yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm yn fuddiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn briodol. Mae

cynlluniau unigol disgyblion yn cynnwys targedau a chyfleoedd bwriadus i staff, rhieni ac asiantaethau allanol i adolygu cynnydd y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a llythrennedd Cymraeg yn effeithiol. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o’r ysgol. Fodd bynnag, nid yw staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu Saesneg yn gydlynus dros amser.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Ar draws yr ysgol, mae llawer yn cymhwyso eu medrau rhif yn hyderus mewn gweithgareddau dysgu perthnasol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae’r disgyblion hynaf yn datrys problemau gwyddonol yn frwdfrydig tra’n ceisio datrys cod i ymadael â’r dosbarth. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol wrth iddynt ymchwilio a chefnogi eu dysgu yn y meysydd dysgu.

Mae bron bob disgybl yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau hybu iechyd a chorfforol da, yn enwedig yn ardaloedd allanol eang yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau corfforol drwy reoli beiciau a chodi coed yn yr ardal allanol yn fwriadus, er enghraifft. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i’r disgyblion hynaf gymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn yn eu cefnogi i ddatblygu eu balchder at yr ysgol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu medrau corfforol a’u hymagwedd at gydweithio yn hynod effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o athrawon yn trefnu gweithgareddau yn effeithiol, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog ymgysylltiad cyson y disgyblion â’u dysgu. Mae bron bob disgybl yn ymroi’n frwdfrydig i’w gweithgareddau ac yn arddel agweddau cadarn at ddysgu. Maent yn canolbwyntio’n dda mewn gweithgareddau ac yn dyfalbarhau’n gyson yn eu gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i ddysgu a chyflwyno eu gwaith yn ddigon effeithiol. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymwybodol o’u camau nesaf yn eu dysgu ac yn gweithredu ar adborth llafar staff yn gyson i fireinio a gwella eu gwaith.

Wrth fod yn aelodau o bwyllgorau llais y disgybl, mae medrau arwain disgyblion yn datblygu’n addas. Yn yr arfer orau, mae aelodau’r pwyllgorau yn dylanwadu’n uniongyrchol ar faterion yn y gymuned leol, er enghraifft wrth i’r cyngor diogelwch wirio cyflymdra cerbydau ar y brif ffordd y tu allan i'r ysgol.

Mae gan y pennaeth ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd datblygu’r ysgol. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth i ddatblygu dulliau addysgu a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a’r gymuned y mae’n ei gwasanaethu yn dda. Mae aelodau’r corff yn datblygu eu dealltwriaeth o weithgareddau gwella’r ysgol wrth ystyried ymweliadau â’r dosbarthiadau a chraffu ar waith disgyblion. Yn gyffredinol, mae adnabyddiaeth y llywodraethwyr o berfformiad yr ysgol yn addas.

Mae’r pennaeth wedi creu diwylliant cadarnhaol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i’r holl staff. Cânt eu hannog i ddatblygu’n broffesiynol wrth ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. Er enghraifft, mae aelod o staff wedi sicrhau darpariaeth i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau digidol. Mae

hyn wedi cefnogi staff i ymchwilio ymhellach i wella eu medrau digidol personol sydd yn ei dro wedi arwain at wella’r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae hyder staff i ddatblygu a chymhwyso medrau digidol y disgyblion yn fuddiol.

Mae disgyblion yn elwa o gysylltiadau gwerthfawr yr ysgol gyda diwydiant lleol a chenedlaethol, gan gynnwys cwmnïau lleol, Prifysgol Bangor a chwmnïau teledu a radio. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu medrau gydol oes a gwybodaeth am yrfaoedd gwahanol yn llwyddiannus.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw ei rôl o fewn ei chymuned ehangach. Mae’r ysgol yn nghalon yr ardal leol ac mae disgyblion yn chwarae rhan greiddiol wrth gymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol a chystadlu yn yr eisteddfod leol. Er enghraifft, maent yn casglu sbwriel o amgylch y pentref yn rheolaidd ac yn falch o’r cysylltiad gwerthfawr â’r clwb pêl-droed lleol. O ganlyniad, mae’r profiadau’n cyfrannu’n llwyddiannus at ddatblygu’r disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol a chydwybodol sy’n arddangos gofal a pharch at eu cymuned a’u hamgylchfyd.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelwch y safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2024